Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

# Cronfa Ymateb Brys

# Cwestiynau Cyffredin

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®
Freelands Foundation

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Hanfodion y rhaglen | 3 |
| Cymhwysedd | 4 |
| Diffiniadau | 5 |
| Paratoi eich cais | 6 |
| Am y gronfa | 9 |
| Meini prawf a gwneud penderfyniadau | 10 |
| Gwybodaeth a chymorth | 12 |
| Arian arall y Loteri Genedlaethol | 12 |


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

## Hanfodion y rhaglen

| | |
|---|---|
| Beth yw'r gronfa?<br>I bwy mae hi? | Mae'r gronfa ymateb brys i ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n profi caledi ariannol/colli incwm yn awr oherwydd coronafeirws. Arian argyfwng tymor byr ydyw i'w galluogi i oroesi'n ariannol ac yn artistig.<br><br>Bydd y gronfa yn helpu unigolion i ddiwallu eu hanghenion ariannol mwyaf brys wrth archwilio'r cymorth posibl sydd ar gael gan gynlluniau'r Llywodraeth neu ffyrdd eraill o gynnal eu gweithgareddau.<br><br>**Dim ond os nad oes gennych ffynhonnell arall o incwm y dylech ymgeisio i'r gronfa.**<br><br>Cyhoeddwn **gronfa ymsefydlogi i unigolion** cyn diwedd Ebrill 2020. Nod y gronfa ymsefydlogi yw helpu ymarferwyr creadigol i allu goroesi a diogelu eu hymarfer creadigol. |
| Am faint gallaf ymgeisio? | Cewch grant o hyd at **£2,500**. Cewch ofyn am lai – does dim lefel isaf i'r grant. Gallwch ofyn am ragor na £2,500 dim ond os yw'ch cais yn cynnwys costau hygyrchedd (rhagor o fanylion yn yr adran, Paratoi eich cais, yn y ddogfen yma) |
| Pryd gallaf ymgeisio? | Mae dwy rownd ariannu.<br><br>Rownd 1<br><br>Mae'n agored i ymgeisio o **ddydd Mawrth 14 Ebrill 2020** a'r dyddiad cau i ymgeisio ar-lein yw **5pm ddydd Llun 20 Ebrill**.<br><br>Rownd 2<br><br>Mae'n agored i ymgeisio o **ddydd Mawrth 28 Ebrill 2020** a'r dyddiad cau i ymgeisio ar-lein yw **5pm ddydd Mercher 6 Mai 2020**. |
| Dyna'r unig help sydd ar gael? | Mae'n hanfodol bod yr arian cyfyngedig yma'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf. Felly os oes gennych chi ffyrdd o gael cymorth o ffynonellau eraill a fydd yn ddigonol ar gyfer y cyfnod yma, gofynnwn ichi beidio ag ymgeisio. |

| | |
|---|---|
| | Mae nifer o ffyrdd eraill y gall Llywodraeth Cymru a Phrydain eich helpu. Mae rhagor o wybodaeth yma |

## Cymhwysedd

| | |
|---|---|
| Pwy all ymgeisio? | Ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n:<br>• profi caledi ariannol/colli incwm oherwydd coronafeirws<br>• ennill dros hanner eu hincwm o waith llawrydd<br>• gweithio'n bennaf (dros 50%) yn un o'r disgyblaethau rydym ni'n eu cefnogi (cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfun/amlddisgyblaeth, y celfyddydau digidol)<br>• meddu ar hanes o weithio yn y tair blynedd diwethaf yn y sector diwylliant a ariennir yn gyhoeddus neu gyda sefydliad a ariennir yn gyhoeddus<br>• 18 oed o leiaf<br>• byw yng Nghymru<br>• meddu ar gyfrif banc ym Mhrydain â'u henw cyfreithiol arno |
| Pwy sy'n methu ymgeisio? | Ni allwn ariannu:<br>• unrhyw un sydd â mynediad at ffynonellau eraill o arian neu incwm<br>• unrhyw un sydd ar seibiant fel rhan o gynllun Llywodraeth Prydain i gadw swyddi<br>• myfyrwyr (gan gynnwys y rhai mewn addysg uwch)<br>• academyddion neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg<br>• unrhyw un dan 18 oed |
| Beth os nad ydw i'n llawrydd? | Os nad ydych chi'n gweithio'n llawrydd, ni ddylech ymgeisio. Rydym ni'n eich cynghori i ymchwilio i gynnig Llywodraeth Prydain ar gyfer cyflogau sy'n cael eu bygwth gan goronafeirws. |

| | |
|---|---|
| | (Gweler y Ffynonellau Eraill o Incwm isod.) |
| Beth os yw fy swydd mewn manwerthu, arlwyo neu swyddogaeth gymorth arall yn y sector creadigol? | Rydym ni'n blaenoriaethu cymorth i ymarferwyr llawrydd sydd â'u prif ffynhonnell incwm o'u gwaith creadigol.<br><br>Rydym ni'n eich cynghori i ymchwilio i gynnig Llywodraeth Prydain ar gyfer cyflogau sy'n cael eu bygwth gan goronafeirws. |

## Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Beth yw 'ymarferwyr creadigol'? | Unigolion ac artistiaid creadigol sy'n gweithio yn y celfyddydau rydym ni'n eu cefnogi gan gynnwys artistiaid, ysgrifenwyr barddoniaeth, rhyddiaith neu ffuglen, dramodwyr, cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr, coreograffwyr, cyfansoddwyr, artistiaid gweledol, gwneuthurwyr, curaduron, perfformwyr. |
| Beth mae 'arian cyhoeddus' yn ei olygu? | Rhaid eich bod wedi cael grant i gyflawni gwaith neu wedi bod yn rhan o brosiect lle aeth grant i sefydliad arall.<br><br>Gall hyn gynnwys arian gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, awdurdodau lleol, prifysgolion, cyrff y sector cyhoeddus, ymddiriedolaethau, sefydliadau ac ati. |
| Am beth y gallaf ymgeisio? | Arian i dalu am:<br><br>• Treuliau brys na allant aros<br>• Amser i ymsefydlogi, ymarfer eich celfyddyd a chysylltu â'ch rhwydweithiau creadigol o gydweithwyr<br>• Gweithgarwch a/neu offer a fydd yn eich helpu i gynnal eich ymarfer a'ch cefnogi i barhau gyda'ch gwaith<br>• Amser i feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>Nid ydym ni'n disgwyl i ymgeiswyr gyflawni allbynnau creadigol yn uniongyrchol o gael yr arian yma. |

| | |
|---|---|
| Am beth na allaf ymgeisio? | Ni allwn ariannu:<br>• cynigion sy'n canolbwyntio ar allbwn ar gyfer gwaith prosiect, er enghraifft, creu gwaith newydd, neu deithio gwaith<br>• myfyrwyr am ffioedd dysgu addysg uwch a chostau cysylltiedig<br>• ceisiadau gan bobl nad ydynt yn cael mwy na 50% o'u hincwm drwy eu gwaith llawrydd. Os ydych chi fel arfer yn cael incwm drwy swydd Talu wrth Ennill rydych chi wedi'i golli o ganlyniad i goronafeirws, mae'n bosibl y gallwch gael arian o gynllun gwarantu cyflogau'r Llywodraeth |
| A all rhagor nag un person yn yr un cartref fod yn gymwys? | Gallant – rydym ni'n gwybod y gall rhagor nag un person mewn cartref fod yn artist llawrydd neu'n ymarferwr creadigol llawrydd. Os yw pob unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, a bod ganddo gyfrif banc ar wahân yn ei enw, bydd yn gymwys.<br><br>Os oes rhagor nag un person sy'n ymgeisio o'r un cartref, dylai pob unigolyn sicrhau ei fod dim ond yn gofyn am arian am ei gostau personol. |

## Paratoi eich cais

| | |
|---|---|
| Sut ydw i'n dangos caledi ariannol/colli incwm? | Mae angen ichi ddweud wrthym am unrhyw incwm yr ydych wedi'i golli.<br><br>Mae hyn yn golygu rhoi gwybod inni am incwm sydd wedi'i gadarnhau neu rydych chi'n disgwyl ei gael ac yr ydych chi wedi'i golli. Mae angen ichi ddweud a ydych wedi archwilio ffynonellau eraill o gymorth (gweler isod) ac egluro pam nad ydynt ar gael ichi, neu ddim yn ddigon i'ch cefnogi.<br><br>Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi i ofyn am dystiolaeth o hyn yn ddiweddarach, felly cadwch gofnod (fel eich cofnodion eich hun, negeseuon e-bost, copïau o gontractau ac ati). |

| | |
|---|---|
| Ffynonellau eraill o incwm rydym ni'n disgwyl ichi eu harchwilio | Mae'n hanfodol bod yr arian cyfyngedig yma'n mynd at y rhai sydd ei angen fwyaf. Felly os oes gennych chi ffyrdd o gael cymorth o ffynonellau eraill a fydd yn ddigonol ar gyfer y cyfnod yma, gofynnwn ichi beidio ag ymgeisio.<br><br>Gallai ffynonellau eraill o gymorth nad ydynt yn rhai celfyddydol gynnwys:<br><br>• Cymorth incwm i bobl hunangyflogedig gan Lywodraeth Prydain<br>• Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth Prydain (ar seibiant/furloughed)<br>• Budd-daliadau megis Credyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)<br>• Cronfa Cadernid Economaidd Busnes Cymru |
| Sut y byddai'r arian yma'n effeithio ar fy nghais am gredyd cynhwysol/ cymorth ariannol gan y Llywodraeth? | Ni allwn roi cyngor ar sut y gallai ein harian effeithio ar gredyd cynhwysol, nac ar unrhyw fudd-daliad neu arian arall. Cofiwch y gallai fod hefyd oblygiadau o ran treth. Am gyngor am hynny dylech gysylltu â Thollau a Chyllid ei Mawrhydi. |
| A oes angen imi roi cyllideb ichi ar gyfer sut y byddwn yn gwario'r arian? | Nac oes, y cyfan y mae angen ichi ei wneud yw dweud wrthym pam mae angen yr arian arnoch, ac am faint o arian rydych chi'n ymgeisio. |
| A oes angen 10% o arian cyfatebol arnaf? | Nac oes, nid oes angen arnoch unrhyw arian cyfatebol. |
| Mae gennyf ofynion hygyrchedd, pa gymorth y gallaf ei gael i lenwi'r cais? | Os oes gennych ofynion hygyrchedd, gallwch gysylltu â'n tîm grantiau a gwybodaeth: grantiau@celf.cymru |
| A allaf gynnwys costau hygyrchedd personol yn fy nghyllideb prosiect? | Gall pob ymarferwr ymgeisio am grant o hyd at **£2,500**.<br><br>Os oes gennych gostau ychwanegol yn ymwneud ag anabledd, gallwch ymgeisio am hyd at **£2,000** ar ben y £2,500. |

| | |
|---|---|
| Beth yw costau hygyrchedd? | Yn y cyd-destun yma, gall costau hygyrchedd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br>• cymorth gofal personol yn y cartref<br>• help gyda chludiant<br>• teithio i apwyntiadau meddygol<br>• cynorthwyydd personol<br>• cymorth ychwanegol gan therapydd ar ben yr hyn rydych chi'n ei dderbyn ar hyn o bryd<br>• eiriolwr<br>• cymorth cyfathrebu fel cyfieithydd Arwyddeg (BSL), rhywun i gymryd nodiadau, cyfieithydd llafar i destun, siaradwr gwefusau, disgrifiad clywedol, hwyluso neu gyfieithu dogfennau i fformat hawdd ei ddarllen neu fformatau eraill fel print bras neu sain, cymorth cyfieithu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf<br>• cymorth cyfathrebu o bell neu brynu meddalwedd ac offer i ddarparu cymorth cyfathrebu |
| Pa dystiolaeth fanc sydd raid imi ei chyflwyno? | Rhaid inni gael tystiolaeth i gysylltu popeth a phrofi:<br>• mai enw'r cyfrif yw eich enw cyfreithiol<br>• bod y cyfeiriad ar y cyfrif yng Nghymru<br>• y cod didoli<br>• rhif y cyfrif<br>Rhaid i'r dystiolaeth fod:<br>• yn y ddwy flynedd diwethaf (ar ddyddiad y cais)<br>• cyfathrebiad banc swyddogol er enghraifft:<br>  - ffoto o'r cerdyn banc i'r cyfrif sy'n dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. (Os nad yw'ch enw i'w weld ar y cerdyn, bydd angen inni gael rhagor o dystiolaeth sy'n eich cysylltu â'r cyfrif) |

| | |
|---|---|
| | - Llythyr neu e-bost sy'n dangos yn glir mai'r banc a'i hanfonodd ac sy'n cadarnhau'r wybodaeth angenrheidiol<br>- Cipluniau o'r sgrin sy'n dangos eich bod wedi mewngofnodi i'ch bancio ar-lein ac sy'n dangos eich enw a'r wybodaeth am eich cyfrif<br><br>Efallai bydd raid ichi gynnwys sawl dogfen i brofi'r holl wybodaeth a dangos y cysylltiad yn glir.<br><br>Os llwydda eich cais, gwiriwn y wybodaeth drwy ofyn ichi am fanylion pellach am eich cyfrif. Ni allwn dalu unrhyw arian ichi nes inni gael y wybodaeth yma a'i gwirio.<br><br>Dalier sylw:<br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sydd dim ond yn gweithio gyda llyfr pás.<br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon ar y cyd ychwaith. |
| Os byddaf yn dechrau ymgeisio ar gyfer rownd 1 ond yn penderfynu aros tan rownd 2, a fydd eich system ar-lein yn arbed y gwaith rwyf eisoes wedi'i wneud? | Bydd, gallwch ddychwelyd i'ch cais ar unrhyw adeg, hyd yn oed os nad ydych wedi'i orffen. |

## Am y gronfa

| | |
|---|---|
| Beth yw maint y gronfa? | Ein nod yw dyrannu ychydig dros 20% (sef £1.5 miliwn) o gyfanswm yr arian sydd ar gael i gefnogi'r ddwy gronfa i unigolion – y gronfa ymateb brys a'r gronfa ymsefydlogi. Mae'n ymddangos yn swm mawr o arian ond disgwyliwn dderbyn llawer o geisiadau i'r gronfa.<br><br>Nid ydym ni eto wedi penderfynu ar y rhaniad terfynol rhwng y ddwy gronfa. Byddwn ni'n monitro nifer y ceisiadau a phenderfynu ar ôl cael gwybod am y gwir angen. |

| | |
|---|---|
| | Byddwn ni’n sicrhau mai’r un swm yn cael ei ddyrannu yn nwy rownd ymgeisio’r gronfa ymateb brys. |
| O ble daeth yr arian? | Rydym ni wedi ailddyrannu rhywfaint o’n harian cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd hefyd wedi cyfrannu arian ychwanegol at yr arian sydd ar gael. Rydym ni hefyd wedi gwneud y penderfyniad anodd i ohirio am chwe mis ein rhaglenni agored i gais am arian y Loteri Genedlaethol ac ailgyfeirio’r arian i’r gronfa wytnwch. Byddwn ni’n adolygu’r sefyllfa yn nes ymlaen yn y flwyddyn a chyhoeddi pryd y bydd y rhaglenni yma ar agor eto.<br><br>Mae Tŷ Cerdd a Llenyddiaeth Cymru yn cyfrannu’r arian y byddant fel arfer yn ei gynnig i unigolion. Rydym ni hefyd yn trafod gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau i gael gwybod a hoffent gyfrannu at ein cronfa wytnwch.<br><br>Mae ffynonellau eraill o arian ar gael oddi wrth sefydliadau eraill gan gynnwys cronfeydd cyni’r undebau llafur a chymdeithasau dyngarol. |

## Meini prawf a gwneud penderfyniadau

| | |
|---|---|
| Sut byddwch yn atal pobl nad oes arnynt angen yr arian rhag ymgeisio? | Ein blaenoriaeth yn awr yw rhoi i weithwyr yn y celfyddydau yr arian sydd arnynt ei angen. Nid ydym ni’n gwneud y broses yn un gystadleuol nac yn gofyn am dystiolaeth o angen. Ond os yw ymgeisydd wedi cael arian o ffynhonnell arall, mae’n bosibl y bydd raid inni gymryd hyn i ystyriaeth os oes llawer iawn o geisiadau i’r gronfa.<br><br>Rydym ni'n dibynnu ar artistiaid ac ymarferwyr creadigol i fod yn ystyriol o anghenion pobl eraill wrth ddewis ymgeisio am arian. Rydym ni’n ymddiried yn ein cymuned artistig i barchu hyn. |
| A oes unrhyw feini prawf arbennig y byddwch yn eu defnyddio i benderfynu pwy fydd yn cael yr arian? | Nid yw'r grantiau'n rhai cystadleuol ac rydym wedi creu proses gyflym a syml o ymgeisio.<br><br>Ond rydym ni eisiau i’n harian gyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed neu sydd wedi cael anawsterau yn y gorffennol i gael gafael ar arian. |

| | |
|---|---|
| | Rydym ni am sicrhau bod sector y celfyddydau a diwylliant yn cynrychioli orau ein cymdeithas. Rydym ni'n gobeithio y bydd yr arian yn galluogi'r amrywiaeth ehangaf o ymarferwyr creadigol i gael digon o incwm fel y gallant barhau i weithio'n llwyddiannus yn y dyfodol.<br><br>Felly, rydym ni'n croesawu ceisiadau oddi wrth bobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig, pobl F/fyddar a phobl anabl.<br><br>Gallai rhai ymgeiswyr gael cymorth pellach i lenwi'r cais (gweler ein cwestiwn am ofynion hygyrchedd uchod) |
| Pryd caf fy mhenderfyniad? | Ein nod yw gwneud penderfyniadau mewn 3 wythnos o ddyddiadau cau. Os na allwn wneud hyn am unrhyw reswm, byddwn yn rhoi gwybod ichi. |
| Os byddaf yn llwyddiannus, pryd byddwn yn cael yr arian? | Byddwn ni'n awdurdodi taliadau cyn gynted ag y cawn eich llythyr derbyn grant oddi wrthych ac wedi cael cyfle i wirio eich manylion banc. |
| A fydd rhagor o rowndiau? | Na fydd - dwy rownd fydd.<br><br>Dim ond i un y gallwch ymgeisio. Os gwnaethoch chi gais yn y rownd gyntaf, ni allwch ymgeisio eto yn yr ail. |
| Pam mae dwy rownd? | Nid pawb fydd yn barod am yr un gyntaf ac ni fydd pawb angen yr arian erbyn yr un gyntaf ychwaith. Rydym ni eisiau i bobl ymgeisio ar yr amser sy'n iawn iddyn nhw. |
| A allaf ymgeisio i'r gronfa ymsefydlogi i unigolion os cefais arian yn barod o'r gronfa ymateb brys? | Gallwch. |
| Faint o geisiadau fydd yn llwyddo? | Rydym ni'n gobeithio ariannu pob cais, ond yn yr amgylchiadau rhyfedd yma, nid oes modd inni wybod faint o bobl fydd yn ymgeisio. |

| | |
|---|---|
| A wnewch gyhoeddi enwau'r bobl sy'n cael grant? | Gwnawn. Fel ariannwr cyhoeddus, rhaid inni gyhoeddi enwau a manylion bras pawb sy'n derbyn arian drwy'r Cyngor. |

## Gwybodaeth a chymorth

| | |
|---|---|
| Sut gallaf gael cymorth hygyrchedd wrth hunanynysu/ymbellhau'n gymdeithasol? | O ystyried y cyfyngiadau presennol, nid yw'n bosibl i gael cymorth wyneb yn wyneb (heblaw am roddwyr gofal rheolaidd). Byddwn ni'n parhau i gefnogi unigolion sydd â gweithwyr cymorth (gan gynnwys aelodau o'r teulu) drwy'r Gronfa Gymorth Hygyrchedd i ddehongli'r canllawiau a/neu ymgeisio.<br><br>Y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni: grantiau@celf.cymru |
| A allaf siarad â swyddog y Cyngor? | Mae ein staff yn ymroddedig i gefnogi a helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Ond fel pawb arall yn y cyfnod anodd yma, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ofalu am eu hiechyd a'u lles.<br><br>Mae ein staff ar hyn o bryd yn gweithio gartref, yn aml yn cydbwyso eu gwaith a'u hymrwymiadau teuluol. Felly ni allwn gynnig cyngor un wrth un ar sut i ysgrifennu ceisiadau ar gyfer y gronfa.<br><br>Rydym ni wedi cynllunio'r broses i fod mor syml â phosibl, gan ofyn dim ond am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom am eich amgylchiadau presennol.<br><br>Mae ein gallu i roi cyngor yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd, ond os oes gan unigolyn anghenion hygyrchedd a bod angen cymorth pellach arno i lenwi'r cais, gall gysylltu â: grantiau@celf.cymru |

## Arian arall y Loteri Genedlaethol

| | |
|---|---|
| Mae gennyf grant prosiect y Loteri Genedlaethol eisoes – | Rydym ni'n eich annog dim ond i ystyried ymgeisio i'r gronfa yma os nad oes gennych ddigon o arian i gwrdd â'ch anghenion mwyaf brys. |

| | |
|---|---|
| a yw hynny'n effeithio ar ymgeisio i'r gronfa? | Rydym eisoes wedi cysylltu â'r holl unigolion a sefydliadau sydd â grant Loteri Genedlaethol agored i roi gwybod iddynt beth y dylent ei wneud nesaf gyda'r arian yna. Os rydym ni eisoes wedi cysylltu â chi, darllenwch y cyngor yna'n ofalus cyn ymgeisio i'r gronfa.<br><br>Os ydych chi'n derbyn arian arall gan y Cyngor, gallwch ymgeisio o hyd i'r gronfa, ond rhaid ystyried yn ofalus feini prawf y gronfa a pha arian sydd arnoch ei angen yn ystod coronafeirws.<br><br>Os ydych chi'n derbyn arian arall gan y Cyngor, esboniwch pam nad yw'r arian yna'n ddigon i'ch cefnogi ar hyn o bryd. |
| Pryd fydd grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn ailagor? | Nid oes gennym ddyddiad ar hyn o bryd. Ond mae'n debygol y bydd ein rhaglenni agored i gais arferol yn aros ar gau am 6 mis cyntaf 2020/21. Gwyddom fod grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn rhan hanfodol o gynllunio busnes llawer o unigolion a sefydliadau. Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i ailagor y rhaglenni yma ar y cyfle cyntaf. |